Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Effaith yr Amddiffyniadau COVID-19 yng Nghymru

## Adroddiad Cryno

Tachwedd 2023

**Science Evidence Advice (SEA)**

Providing evidence and advice for Health and Social Services Group on behalf of the Chief Scientific Advisor for Health

gov.wales

## Effaith yr Amddiffyniadau COVID-19 yng Nghymru – Adroddiad Cryno

Mae’r adroddiad Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth 'Effaith Amddiffyniadau COVID-19 yng Nghymru' yn crynhoi’r ymchwil a’r data ar effaith ymyriadau anfferyllol ar boblogaeth Cymru. Mae'r adroddiad yn ystyried y data o fis Mawrth 2020 i fis Gorffennaf 2022.

Yn gyffredinol, nododd y dadansoddiad fod yr amddiffyniadau COVID-19 a oedd ar waith yn ystod y pandemig yn llwyddiannus yn gyffredinol o ran lleihau trosglwyddiad ac effaith uniongyrchol y feirws. Er hynny, roedd niwed anuniongyrchol lluosog o ganlyniad i’r amddiffyniadau hyn, ac mae’n debygol bod y rhain yn dal i effeithio ar sawl agwedd ar ein cymdeithas yng Nghymru.

## Y pwyntiau allweddol:

- Roedd yr amddiffyniadau yn gyfrifol am leihau’r niwed uniongyrchol o ganlyniad i COVID-19 yng Nghymru oherwydd iddynt leihau trosglwyddiadau ac, o ganlyniad felly, lleihau hefyd nifer y derbyniadau i’r ysbyty, y marwolaethau a’r pwysau ar y GIG.

- Roedd y gorchmynion i aros gartref (y 'cyfyngiadau ar symud') yn gysylltiedig â chynnydd yn nifer y llwybrau cleifion yn aros i ddechrau triniaeth. Fodd bynnag, pe na bai'r amddiffyniadau wedi bod ar waith, gallai hyn fod wedi cynyddu ymhellach eto.

- Roedd negeseuon a chyngor y llywodraeth wedi lleihau nifer yr ymweliadau ag Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys pan oedd ton o heintiadau yn ei hanterth, a chynnydd yn nifer y galwadau i GIG 111 Cymru.

- Roedd mwy o unigolion yn poeni ‘llawer’ am eu llesiant a’u hiechyd meddwl eu hunain yn ystod cyfnodau o amddiffyniadau COVID-19 llym. Roedd mwy o bryder ynglŷn â llesiant ac iechyd meddwl ymhlith trigolion cymunedau mwy difreintiedig, menywod a’r grwpiau oedran iau.

- Roedd yr amddiffyniadau yn gysylltiedig â chynnydd mewn anghydraddoldebau addysgol. Yn haf 2021, bu cynnydd arwyddocaol yn ystadegol rhwng y graddau a gyflawnwyd gan y rhai oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oedd yn gymwys.

- Cafodd y cynllun ffyrlo effaith gadarnhaol ar gynnal lefelau cyflogaeth yn 2020 ond roedd yn gysylltiedig â chynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau'r wladwriaeth. Roedd anghydraddoldebau cyflogaeth cyffredinol yn uwch.

- Roedd yr amddiffyniadau COVID-19 yn llwyddiannus o safbwynt lleihau anghydraddoldebau o ran derbyniadau i’r ysbyty yn ôl cwintel amddifadedd rhwng mis Mawrth a mis Ebrill 2020.

- Mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth hwn yn cyd-fynd â'r rhai o adroddiad y Gymdeithas Frenhinol 'COVID-19: examining the effectiveness of non-pharmaceutical interventions'[1] a ganfu fod gweithredu pecynnau o ymyriadau anfferyllol yn llym yn effeithiol mewn rhai gwledydd i leihau trosglwyddiadau SARS-CoV-2.

[1] Rhaglen y Gymdeithas Frenhinol ar effaith ymyriadau anfferyllol ar drosglwyddiadau Covid-19 | Y Gymdeithas Frenhinol